Annwyl Gyfaill

Mae'n bleser gennym gyflwyno'r Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu (y Cod) drafft hwn er mwyn ymgynghori gyda nifer o fudd-ddeiliaid y Swyddfa Archwilio Cymru arfaethedig.

Fe fydd creu Swyddfa Archwilio Cymru o dan arweiniad Archwilydd Cyffredinol Cymru (ACC), yn darparu trefn archwilio ac arolygu 'cysylltiedig' i Gymru ar draws ystod eang o wasanaethau cyhoeddus. Fe fydd yn parhau i ddarparu sicrwydd ynglŷn â stiwardiaeth gywir a chyfrifon arian cyhoeddus. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn cyfrannu at wella'r ddarpariaeth o wasanaethau cyhoeddus trwy ei raglan i graffu ar berfformiad cyrff cyhoeddus yng Nghymru ac archwilio y gwerth am arian a gafwyd mewn gwariant cyhoeddus.

Mae hon yn her a chyfrifoldeb anferth i'r ACC a Swyddfa Archwilio Cymru - her yr ydym yn benderfynol o'i derbyn. Fe fydd y Cod yma yn gonglfaen i'r llwyddiant yma, sef fframwaith allweddol ymagwedd gyffredinol archwilwyr ac arolygwyr i'w gwaith a hefyd i'w gweithgareddau o ddydd i ddydd.

Fe wnaethom werthfawrogi'r sylwadau a gafodd eu derbyn i'r ymgynghoriad gwreiddiol ar y Cod. Erbyn hyn mae'r Cod drafft yma o leiaf yr un mor eang a chynhwysfawr yn ei gwmpas ag unrhyw god a gafodd ei baratoi gan gyrff archwiliedig cyhoeddus neu arolygwyr gwasanaethau cyhoeddus ledled y Deyrnas Unedig.

Mae'r drafft yn dangos sut yr ydym yn bwriadu darparu trefn gysylltiedig sydd yn fwy na rhai'r cyrff sydd yn ei greu, gan gynnwys delio'n briodol gyda'r materion cyfansoddiadol pwysig sy'n perthyn i'r ffaith fod y drefn yn ymdrin â swyddogaethau'r Cynulliad a llywodraeth leol. Mae hefyd yn nodi sut yr ydym yn disgwyl i'r drefn ddatblygu ymhellach yn y dyfodol yn nhermau adolygiadau o systemau cyfan a dulliau cyfannol o weithio ar draws ffiniau - mae archwilio ac arolygu angen bod yr un mor holistig â'r problemau y mae gwasanaethau cyhoeddus yn eu hwynebu.

Mi fuaswn yn ddiolchgar iawn pe baech yn cymryd yr amser i ystyried y Cod hwn yn ofalus. Mae'r cyfnod o ymgynghori yn 12 wythnos, gan ddod i ben ar 29 Hydref 2004, er mwyn rhoi cymaint o gyfle ag sy'n bosibl i fudd-ddeiliaid ymateb, yn ogystal â'n galluogi ni i ystyried sylwadau a rhoi'r Cod o flaen Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn barod ar gyfer dechrau Swyddfa Archwilio Cymru ar 1 Ebrill 2005.

A fyddech gystal â gyrru eich sylwadau i: walescode@audit-commission.gov.uk. neu trwy ysgrifennu at Clive Grace yn Comisiwn Archwilio yng Nghymru, Tŷ Deri, 2-4 Park Grove, Caerdydd, CF10 3PA.

Edrychwn ymlaen i dderbyn eich sylwadau.

Sir John Bourn
Archwilydd Cyffredinol Cymru

Clive Grace
Dirprwy ACC a Darpar Brif Weithredwr Swyddfa Archwilio Cymru a Cyfarwyddwr-Cyffredinol y Comisiwn Archwilio yng Nghymru